*This document is available in English*

**Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **22 Ionawr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Protocol Rhoddion a Lletygarwch** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar ddiwygiadau i'r protocol rhoddion a lletygarwch.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r protocol lletygarwch, sy'n berthnasol i'r holl staff, wedi cael ei ddiweddaru er mwyn ei roi yn y fformat newydd a ddefnyddir gan bolisïau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) h.y. un ddogfen yr un ar gyfer polisi a gweithdrefn. Nid yw'r cynnwys wedi'i newid ar y cyfan, er bod rhwymedigaethau wedi'u hychwanegu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i:

a. weithwyr hysbysu eu rheolwr llinell o fewn 20 diwrnod o gael cynnig / derbyn rhodd neu letygarwch sydd werth mwy na £25;
b. cofrestru rhoddion a dderbynnir o'r un ffynhonnell o fewn cyfnod treigl o 12 mis sydd â chyfanswm gwerth o fwy na £100; a
c. bod y gofrestr yn cael ei gwirio o leiaf unwaith y flwyddyn.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) cymeradwyo'r polisi a'r weithdrefn rhoddion a lletygarwch.

**ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) a gwnaethpwyd y sylwadau/awgrymiadau canlynol:

a. Ychwanegu'r cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofrestru rhoddion sydd â chyfanswm gwerth o fwy na £100;
b. Bod y gofrestr yn cael ei gwirio o leiaf unwaith y flwyddyn; ac
c. Y dylai swyddogion ystyried a yw'r gofynion yr un fath ar gyfer diffoddwyr tân ac, os nad ydynt, a fyddai hynny'n ddymunol.

## CEFNDIR

5 Mae gan yr Awdurdod brotocol i weithwyr o ran rhoddion a lletygarwch. Rai blynyddoedd yn ôl, cafodd y trothwy ar gyfer datgan unrhyw roddion / lletygarwch i gynghorwyr ei godi i £25. Yn ddiweddar, cytunwyd y dylai'r lefel honno fod yn drothwy cyffredin ar draws awdurdodau eraill. Mae cod y gweithwyr yn gosod yr un trothwy.

## GWYBODAETH

6 Yn ddiweddar, cafodd y protocol ei rannu'n ddogfennau polisi a gweithdrefn ar wahân er mwyn cyd-fynd â'r fformat newydd a ddefnyddir gan bolisïau'r awdurdod. Nid yw cynnwys y ddogfen wedi newid llawer ac, ar y cyfan, yr unig beth sydd wedi'i newid yw'r ffordd y mae wedi'i osod.

7 Nid oedd y protocol yn ei gwneud yn ofynnol cyn hyn i weithwyr hysbysu eu rheolwyr pan fo rhodd/lletygarwch yn cael ei gynnig/derbyn. Mae hyn bellach wedi'i nodi yn eglur o fewn y polisi a'r weithdrefn er mwyn sicrhau tryloywder.

8 Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion (sydd wedi'u rhestru uchod), a derbyniwyd pob un ohonynt. Mae'r cod drafft sydd ynghlwm yn cynnwys y cymal ar roddion o'r un ffynhonnell sydd werth mwy na £100, bydd y gofrestr yn cael ei hadrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddol unwaith y flwyddyn, a bydd y polisi yn berthnasol i'r holl staff gan gynnwys diffoddwyr tân.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cyllideb ar gyfer 2023/24 | Gellir cyfathrebu unrhyw negeseuon ynghylch y canfyddiadau o fewn y gyllideb. |
| Cyfreithiol | Mae'r Cyfansoddiad yn gwneud y Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu protocol y swyddogion ar dderbyn rhoddion a lletygarwch. |
| Staffio | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Nid ystyrir bod angen mynd i'r afael ag unrhyw faterion gan fod yr argymhellion yn berthnasol i'r holl Aelodau beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb sengl. |
| Risgiau | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |